Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Trewen
# Cwm-Cou
# Castellnewydd Emlyn
# Ceredigion
# SA38 9PE

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru



**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 07/09/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Trewen ym mhentref gwledig Cwm-Cou ger Castellnewydd Emlyn, yng Ngheredigion. Mae 48 o ddisgyblion, rhwng 4 ac 11 oed, ar y gofrestr. Maent wedi'u trefnu'n dri dosbarth oed cymysg. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Cymraeg yw prif iaith y cartref i oddeutu 43% o'r disgyblion. Mae 4% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 27% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2013. Mae hefyd yn bennaeth ar ddwy ysgol arall mewn ffederasiwn o ysgolion cyfagos yn cynnwys Ysgol Cenarth ac Ysgol Beulah. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Trewen yn 2015-2016 yw £3,883. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolio n cynradd yng Ngheredigion yw £7,464 a'r lleiafswm yw £3,069. Mae Ysgol Trewen yn y 23ain safle o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- medrau llafar ac ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn
- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau rhifedd a llythrennedd yn eu gwaith ar draws y pynciau
- rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol mewn grwpiau
- athrawon yn darparu amrediad o brofiadau dysgu diddorol
- ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan
- y disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais i'w gilydd
- gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau da tuag at ddysgu
- yr ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a chartrefol

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi'i seilio'n gadarn ar sicrhau profiadau dysgu cyfoethog a gwella safonau
- y pennaeth yn rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r disgyblion, staff rhieni a'r llywodraethwyr
- gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod meysydd priodol i'w gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn cynnwys strategaethau cadarn i ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau
- yr athrawon yn rhoi mentrau newydd ar waith sy'n hybu datblygiad addysgol a lles disgyblion yn llwyddiannus
- partneriaethau cynhyrchiol gydag ysgolion eraill y ffederasiwn
- adnoddau yn cael eu defnyddio'n adeiladol i gefnogi'r dysgu
- cydweithio gydag ystod o bartneriaid yn dylanwadu'n gadarnhaol ar waith yr ysgol

## Argymhellion

A1 Datblygu gallu disgyblion i ddefnyddio ystod o strategaethau darllen

A2 Cynllunio’n fwriadus i sicrhau dilyniant a chynnydd cyson ym medrau’r disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Ymestyn medrau asesu ar gyfer dysgu’r disgyblion a sicrhau cyfleoedd cyson iddynt ymateb i adborth ar sut i wella

A4 Pennu targedau penodol a meintiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

A5 Datblygu rôl y corff llywodraethol ym mhrosesau hunanarfanu’r ysgol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau rhan fwyaf y disgyblion ychydig yn is na'r lefel ddisgwyliedig, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu dysgu.

Ar draws y dosbarthiadau, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda. Maent yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol ac yn defnyddio'u gwybodaeth yn bwrpasol yn eu gwaith.

Mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn sgwrsio'n naturiol gyda lefel gynyddol o gywirdeb. Maent yn awyddus i drafod materion o fewn eu profiad a chynnig esboniadau syml. Mae ychydig o'r disgyblion mwyaf abl yn cynnig esboniadau mwy estynedig yn ddigymell. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynegi eu hunain yn glir a chywir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau gan ddefnyddio geirfa bynciol a chyffredinol yn hyderus wrth drafod eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn dda gan dalu sylw i atalnodi ac amrywio goslef a thôn yn effeithiol. Maent yn darllen i wahanol bwrpasau ac yn trafod y cymeriadau a'r digwyddiadau yn eu llyfrau yn glir ac yn ystyrlon. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn darllen nofelau heriol yn rhugl a chyda mynegiant da.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hyderus a chyda mwynhad. Mae'r rhan fwyaf yn talu sylw priodol i atalnodi, gyda'r disgyblion mwy abl yn defnyddio goslef llais yn effeithiol sy'n cadarnhau eu dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddarllen. Er hynny, nid yw'r disgyblion bob amser yn gwneud digon o ddefnydd o'u uwch fedrau darllen i ganfod gwybodaeth benodol na chwestiynu ystyr a negeseuon dyfnach mewn print. Ar draws yr ysgol, mae ychydig o'r disgyblion yn dangos diffyg rhuglder a chywirdeb wrth ddarllen ac nid ydynt yn meddu ar ystod o strategaethau darllen i'w cynorthwyo.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gyda chywirdeb cynyddol. Maent yn cyflwyno'u gwaith yn drefnus a thaclus gan atalnodi'n bwrpasol. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n estynedig i ystod o bwrpasau, yn cynnwys ysgrifennu stori ddychmygol a dyddiaduron cymeriadau mewn straeon.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer ystod eang o bwrpasau o fewn eu gwersi iaith Cymraeg a Saesneg ac ar draws y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddo i ddilyn nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu estynedig yn effeithiol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys ysgrifennu adroddiad papur newydd yn son am daith y Mimosa, dyddiadur am hanes Branwen ac esboniad o

ganlyniad arbrawf gwyddonol. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos dealltwriaeth sicr o atalnodi a phatrymau sillafu sylfaenol gan ddewis geirfa at bwrpas penodol. Fodd bynnag, mae safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion yn anwastad.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif i gyfrif a datrys problemau yn hyderus. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o waith mesur, siâp a thrin data. Er enghraifft, maent yn casglu gwybodaeth ar ffurf diagramau a thablau ac yn creu graffiau pwrpasol ar destunau fel hoff dywydd a hoff liwiau plant y dosbarth. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir yn eu gweithgareddau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o ffeithiau rhif ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth o unedau amser, mesur a thrin data yn effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol. Maent yn casglu a chynrychioli data yn gywir mewn tasgau ymchwilio mewn pynciau gwahanol. Mae enghreifftiau yn cynnwys cymharu tymheredd haf a gaeaf ym Mhatagonia a chyfrifo amser a milltiroedd wrth deithio i Batagonia o wahanol feysydd awyr.

Mae mwyafrif y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol. Mae'r ychydig ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn unol â'u gallu. Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros bedair blynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyliedig mewn mathemateg a llythrennedd wedi gosod yr ysgol ymhlith yr 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r canran sy'n cyflawni'r deilliannau uwch yn amrywio rhwng yr 50% is a'r 25% uchaf mewn llythrennedd, a gan amlaf o dan y canolrif mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros bedair blynedd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig o gymharu ag ysgolion tebyg yn anwastad ac yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf mewn Cymraeg a Saesneg. Mewn gwyddoniaeth, mae canlyniadau'r disgyblion yn y 25% uchaf gan amlaf, tra mewn mathemateg maent yn y 25% isaf. Mae canlyniadau'r disgyblion yn 2015 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ym mhob pwnc.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn Saesneg a rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch mewn Cymraeg a gwyddoniaeth. Mewn mathemateg, maent yn y 25% isaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mae canlyniadau 2015 yn dangos cynnydd.

Mae safon gwaith y disgyblion yn eu llyfrau ac mewn dosbarthiadau yn well nag y mae'r data'n ei awgrymu ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff neu ffrind am gymorth pan fo angen. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach trwy fwyta ffrwythau a llysiau'n rheolaidd a gwneud ymarfer corff.

Mae ymddygiad y disgyblion yn dda yn y gwersi ac amser egwyl. Nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol yw'r cwrteisi a'r parch a amlygir gan y disgyblion at gyfoedion ac oedolion. Mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn dangos gofal am y disgyblion iau yn effeithiol ar y buarth.

Mae'r disgyblion yn derbyn gwahanol gyfrifoldebau fel aelodau'r cyngor ysgol ac mae eu dealltwriaeth o'u rôl yn datblygu. Maent yn cael cyfleoedd i leisio barn a gwneud penderfyniadau er mwyn gwella gwahanol agweddau ar waith yr ysgol. Maent yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad at gynllunio gweithgareddau llwyddiannus, fel trefnu gweithgareddau i godi arian tuag at achosion da. Gwelir tystiolaeth o'u penderfyniadau wrth gynllunio rheolau a phrynu adnoddau chwaraeon ar gyfer amser egwyl, ysgrifennu cod eco i'r ysgol a rhedeg y siop ffrwythau.

Mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol trwy gyfrannu at ystod o weithgareddau yn eu cymuned leol yn cynnwys cyfrannu at gyngherddau a gwyliau lleol.

Mae'r cyfraddau presenoldeb yn dangos gwelliant mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac wedi symud o'r 50% is i'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Er bod cwymp wedi bod yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech posibl i sicrhau bod y presenoldeb yn dda ac nad yw'n cael effaith niweidiol ar safonau a lles disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu i ddisgyblion sy'n cyfoethogi eu haddysg. Mae'r ddarpariaeth yn ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r cynllunio'n seiliedig ar gyfres o themâu sy'n gweddu i ddiddordebau'r disgyblion ac yn cynnig gweithgareddau diddorol a symbylus. Er hyn, nid yw'r cynllunio yn ddigon bwriadus bob amser i sicrhau dilyniant a chynnydd cyson yn natblygiad medrau'r disgyblion ar draws yr ysgol. Darperir profiadau cyfoethog ac ysgogol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae'r athrawon yn ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol yn eu cynllunio trwy weithgareddau pwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae cyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso medrau creadigol a medrau meddwl y disgyblion mewn amryw o weithgareddau.

Mae ystod dda o weithgareddau all-gwricwlaidd ar gael i ddisgyblion sy'n cyfoethogi profiadau ac ehangu cyfleoedd. Maent yn cyfrannu at eu datblygiad diwylliannol a chorfforol yn llwyddiannus. Cyfoethogir profiadau dysgu trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol a thrwy ymweliadau â lleoedd gwahanol, fel traeth Mwnt. Mae'r ymweliadau yn hybu adnabyddiaeth y disgyblion o nodweddion hanesyddol a daearyddol eu hardal leol yn effeithiol.

Mae darpariaeth gadarn ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg trwy holl waith yr ysgol. Mae amrywiaeth o gyfleoedd cynhyrchiol i ddisgyblion ddysgu am hanes, traddodiadau a diwylliant Cymru. Maent yn cynnwys astudio gwaith awduron ac arlunwyr o Gymru a chyfrannu at ddathliadau ac eisteddfodau lleol.

Mae darpariaeth bwrpasol ar gyfer galluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ymestyn eu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang trwy'r cwricwlwm a gweithgareddau diwylliannol ac elusennol.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol sicr. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd adeiladol o ystod o strategaethau addysgu ac adnoddau addas i ddatblygu'r dysgu. Trwy'r ysgol gyfan, mae cydweithio da rhwng y disgyblion a'r staff mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cynnig cymorth effeithiol i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion o fewn y dosbarth.

Mae'r athrawon yn cynllunio eu gwersi yn ofalus gydag amcanion dysgu clir. Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae cyflwyniadau pwrpasol, holi effeithiol a gweithgareddau diddorol a heriol yn hyrwyddo dysgu cyson. Mae defnydd cynhyrchiol o gyd-destunau bywyd bob dydd i sbarduno disgyblion, er enghraifft wrth hybu'r disgyblion i ysgrifennu llythyr at y cyngor sir yn gofyn am lwybr diogel i'r ysgol a defnyddio medrau rhifedd er mwyn creu diet cytbwys i dimau Olympaidd. Mae hyn yn cael effaith adeiladol ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd at bwrpas.

Yn yr ychydig o wersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cynnig her briodol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgwyliadau o ran sicrhau cyflwyniad gwaith graenus a llawysgrifen daclus yn anwastad.

Mae gan yr ysgol drefniadau clir ar gyfer asesu, cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae defnydd addas o'r data a gynhyrchir i fonitro cynnydd y disgyblion ac i drefnu cymorth yn ôl yr angen.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae enghreifftiau da o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu eu gwaith ac i osod targedau iddynt eu hunain. Er hynny, nid yw'r strategaethau wedi'u hymsefydlu'n ddigon cadarn i ddylanwadu'n llawn ar wella safonau yn gynyddol ar draws yr ysgol. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Mae'r athrawon yn cynnig adborth defnyddiol ar lafar ac yn ysgrifenedig, ond anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i'r sylwadau ar sut i wella.

Mae'r adroddiadau i rieni yn cynnig gwybodaeth lawn ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned hapus a gofalgar. Mae gweithdrefnau effeithiol i hyrwyddo iechyd, pwysigrwydd cadw'n heini, a diogelwch personol y disgyblion. Cyflawnir hyn yn llwyddiannus mewn gwersi, trwy ymweliadau gan ymwelwyr allweddol ac ymweliadau pwrpasol.

Mae ymwybyddiaeth foesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei datblygu'n llwyddiannus. Mae sesiynau addoli ar y cyd, y ffocws ar hybu gwerthoedd, a'r cydweithio gyda'r gymuned leol yn cynnig profiadau buddiol sy'n cyfrannu at hyn.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau arbenigol, fel yr heddlu, gwasanaethau seicolegwyr addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn ôl yr angen.

Mae'r athrawon yn adnabod yn gynnar y disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn darparu cefnogaeth briodol trwy'r grwpiau ymyrraeth, gyda sylw penodol i wella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r targedau a nodir yn y cynlluniau addysg unigol yn ddigon penodol a meintiol bob amser. O ganlyniad, nid ydynt yn cynnig digon o arweiniad i'r athrawon wrth gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd ac mae rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cartrefol, cynhwysol a Chymreig sy'n annog parch tuag at blant ac oedolion. Mae'r ysgol yn gymuned fywiog gydag awyrgylch teuluol cynnes. Mae gweithdrefnau effeithiol i annog yr holl ddisgyblion i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol a'r gymuned ehangach. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth.

Mae adeilad a safle'r ysgol yn darparu amgylchedd glân, trefnus a diogel i ddisgyblion. Mae arddangosfeydd deniadol yn yr ystafelloedd dosbarth ac ar draws yr ysgol yn adlewyrchu ac yn dathlu gwaith disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau cyfredol ar gyfer gwersi a datblygu medrau digidol y dysgwyr. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o adeilad a thir yr ysgol sy'n annog y disgyblion i gadw'n iach, i ddysgu i fod yn gynaliadwy a gwerthfawrogi amgylchedd naturiol eu cynefin. Mae defnydd pwrpasol o bob rhan o'r adeilad ac o'r adnoddau yn yr ardaloedd dysgu allanol i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth cydwybodol sy'n llwyddo i gyfleu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau profiadau dysgu cyfoethog a gwella safonau. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ethos o gydweithio agos yn bodoli.

Mae cyfarfodydd staff yn rhoi sylw teilwng i wella cyflawniad y disgyblion ac yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau wrth gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae gan yr holl aelodau staff swydd ddisgrifiadau manwl sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau unigol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol. Maent yn deall data perfformiad yr ysgol yn briodol ac yn gwybod sut mae'n cymharu â data perfformiad ysgolion tebyg. Trwy dderbyn adroddiadau'r pennaeth, ymweliadau a thrafodaethau, mae ganddynt wybodaeth sicr am y ddarpariaeth addysgol a'r heriau a wynebir. Mae'r aelodau yn ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn effeithiol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad. Fodd bynnag, nid yw eu rôl ym mhrosesau hunanarfanu'r ysgol wedi'i hymsefydlu'n gadarn.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae disgwyliadau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'u sefydlu'n effeithiol ac mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y pennaeth a'r staff wybodaeth sicr am berfformiad yr ysgol, ei chryfderau a'r elfennau ar gyfer datblygiad pellach. Mae defnydd adeiladol o weithdrefnau ar gyfer arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad disgyblion. Maent yn cynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae defnydd cynyddol o safbwyntiau rhieni, disgyblion, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol yn y cyd-destun hwn. Adlewyrchir hyn yn yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys o'r ysgol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar godi safonau disgyblion, er enghraifft y sylw adeiladol a roddir i wella safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae arfarniad y cynllun datblygu blaenorol yn drwyadl ac wedi cael ei ddefnyddio'n effeithiol i lywio'r cynllun presennol.

Mae cysylltiad clir rhwng y broses hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol, sy'n arf ddefnyddiol ar gyfer symud yr ysgol ymlaen. Mae'r gwelliannau yn y cynllunio a'r addysgu, a'r cynnydd mewn medrau ysgrifennu a mathemateg y disgyblion, yn enghreifftiau o hyn. Mae'r cynllun yn cyfeirio'n effeithiol at y camau i'w cymryd, gyda thargedau mesuradwy, amseriad synhwyrol, yr unigolion sy'n gyfrifol a'r cyllid angenrheidiol.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn y profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol gyda rhieni ac mae'n eu hysbysu'n dda am weithdrefnau'r ysgol, er enghraifft trwy ddefnyddio negeseuon testun a chylch lythyr wythnosol.  Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn darparu adnoddau defnyddiol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion, er enghraifft drwy archebu rhagor o gyfrifiaduron.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol i gefnogi dysgu a lles y disgyblion.  Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o ymweliadau'r heddlu a nyrs yr ysgol sy'n codi eu hymwybyddiaeth o sut i gadw'n ddiogel.

Mae cysylltiadau cadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cylchoedd meithrin lleol sy'n galluogi disgyblion i ymgartrefu'n hapus wrth gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae trefniadau pontio effeithiol gyda'r ysgolion uwchradd yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth ac yn paratoi'r disgyblion hŷn ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol gyfan yn elwa o'r cydweithio buddiol sy'n bodoli rhwng y tair ysgol a reolir gan y pennaeth.  Maent yn cyd-gynllunio, yn monitro ac yn ymuno mewn gweithgareddau amrywiol.  Mae'r profiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a datblygiad proffesiynol y staff.  Mae'r ysgol yn cydweithredu'n agos ag ysgolion eraill y clwstwr lleol yn y broses i gymedroli lefelau gwaith disgyblion a chyd-safoni asesiadau.  Mae hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddilysu cywirdeb eu hasesiadau yn briodol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae lefel staffio'r ysgol yn hael ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i bob agwedd o weithgareddau a bywyd yr ysgol.  Mae amrediad da o adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i'r gofyniad statudol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.  O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, mae'r staff yn derbyn ystod o hyfforddiant pwrpasol sy'n ymateb yn briodol i flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r adeiladau, yr adnoddau a'r gyllideb yn effeithiol gan selio'u penderfyniadau ariannol yn briodol ar anghenion yr ysgol.  Mae lefel uchel o fonitro gwariant yn digwydd yn gyson.  Mae defnydd addas o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys.  Mae hyn yn sicrhau mynediad llawn i bob disgybl i holl weithgareddau'r ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion a'r ddarpariaeth, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672345 - YSGOL GYMUNEDOL TREWEN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 52 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.7 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 7 | 10 | * | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 71.4 | 90.0 | * | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | * | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 10 | * | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 90.0 | * | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | * | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.3 | 50.0 | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 10 | * | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 71.4 | 90.0 | * | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | * | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 14.3 | 20.0 | * | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 10 | * | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 100.0 | 90.0 | * | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672345 - YSGOL GYMUNEDOL TREWEN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 52 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.7 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 9 | 6 | 10 | 7 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 77.8 | 83.3 | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 6 | 10 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 83.3 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 66.7 | * | * | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 6 | 10 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 83.3 | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 6 | 10 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 77.8 | 83.3 | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 6 | 10 | 7 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 90.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 24 | 24<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 23 | 22<br>96%<br>92% | 1<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 24 | 23<br>96%<br>96% | 1<br>4%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 24 | 22<br>92%<br>96% | 2<br>8%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 24 | 24<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 24 | 24<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 24 | 22<br>92%<br>91% | 2<br>8%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 23 | 22<br>96%<br>95% | 1<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 24 | 18<br>75%<br>77% | 6<br>25%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 24 | 21<br>88%<br>84% | 3<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 25 | 7 | 17 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 28% | 68% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 25 | 15 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 25 | 17 | 8 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 25 | 10 | 13 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 40% | 52% | 8% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 22 | 5 | 16 | 1 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 23% | 73% | 5% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 23 | 10 | 13 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 43% | 57% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 25 | 12 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 18 | 5 | 10 | 3 | 0 | 7 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 28% | 56% | 17% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 24 | 10 | 11 | 3 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 42% | 46% | 12% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 23 | 8 | 15 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 35% | 65% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 25 | 12 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 24 | 7 | 15 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 29% | 62% | 8% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 25 | 4 | 18 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 16% | 72% | 12% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 24 | 11<br>46% | 10<br>42% | 3<br>12% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 25 | 7<br>28% | 17<br>68% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 23 | 9<br>39% | 13<br>57% | 1<br>4% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 3<br>21% | 10<br>71% | 0<br>0% | 1<br>7% | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 25 | 9<br>36% | 12<br>48% | 4<br>16% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 21 | 5<br>24% | 12<br>57% | 4<br>19% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Emma Rofe | Arolygydd Cofnodol |
| Edna Davies | Arolygydd Tîm |
| Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Kirkman | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhianydd James | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.